




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl



Gorffennaf 2019

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Cyhoeddwyd o dan Adran 28 Deddf Plant 2004.

Pennod / Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyflwyniad	3
Monitro gweithrediad y Cynllun	4
Amcanion	5
Trefniadau ar gyfer atal cam-drin plant yn rhywiol	6
Amcan 1	
Amcan 2	
Amcan 3	
Amcan 4	
Trefniadau ar gyfer amddiffyn plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol	13
Amcan 5	
Amcan 6	
Amcan 7	
Trefniadau ar gyfer cynorthwyo plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol	18
Amcan 8	
Amcan 9	
Amcan 10	


RHAGAIR Y GWEINIDOG

Yn 2014, gwnaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') sefydlu fframwaith diogelu cadarn a chryfach ar gyfer plant ac oedolion.

Gwelwyd llawer o gynnydd ers cyflwyno'r Ddeddf, gydag arweinyddiaeth a gwelliannau mewn diogelu yn cael eu llywio gan y Byrddau Diogelu a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Fodd bynnag, rydym yn eglur nad oes lle i fod yn hunanfodlon, a rhaid i'r gwaith o drechu camdriniaeth a niwed i blant ac oedolion barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid. Mae ein hymrwymiad i gyflenwi'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn wedi ei lywio gan waith pwysig y Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol. Mae tystiolaeth o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) wedi bod yn bwysig hefyd o ran llywio'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn.

Mae cam-drin rhywiol yn cael effaith ddeifiol ar blentyndod a thrwy gydol oes plant. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i wneud popeth o fewn ein gallu i atal cam-drin plant yn rhywiol, i amddiffyn plant mewn perygl, ac i gynorthwyo plant i ddod dros y niwed sylweddol y mae cam-drin rhywiol yn ei achosi.



Julie Morgan AC, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwyniad

Defnyddir y geiriau 'plentyn' a 'plant' drwy gydol y Cynllun hwn i olygu unrhyw unigolyn hyd at 18 oed.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn (y 'Cynllun') yn ystyried cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Wrth edrych ymlaen, bydd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn yn ein cynorthwyo ni i asesu gweithrediad y canllawiau statudol sydd i ddod, *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7 – Diogelu Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant*, a'r Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol pan fyddant yn cael eu cyhoeddi gan y Byrddau Diogelu gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r trefniadau o ran plant mewn perygl wedi'u nodi yn *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg* a *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg*. Mae adran 130(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn diffinio "plentyn sy'n wynebu risg" fel plentyn:

- (a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; a
- (b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi ystyried tystiolaeth o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol ac o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA).

Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid amlasiantaeth o'r Byrddau Diogelu, partneriaid statudol a phartneriaid o'r trydydd sector i gytuno ar y Cynllun hwn. Rydym hefyd wedi elwa ar gyngor a chymorth oedolion sydd wedi goroesi cam-drin plant yn rhywiol.

Dylid darllen y Cynllun ochr yn ochr â [Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni Trawslywodraethol 2018-2021](#) Llywodraeth Cymru a'r [Cynllun gweithredu diogelwch ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru \(2018\)](#).

Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal cam-drin plant yn rhywiol, i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol, ac i gynorthwyo plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol. Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain, ac mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn hefyd yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer partneriaid ar Fyrddau Diogelu sydd â rôl arweiniol yn y gwaith o weithredu'r Cynllun hwn.

Diffiniadau

Mae **cam-drin plant yn rhywiol** yn ymwneud â gorfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddgar neu weithrediadau nad ydynt yn dreiddgar; gweithgareddau heb gyswllt, fel ymhél plant i edrych ar, neu gymryd rhan mewn, cynhyrchu deunydd pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol annerbyniol.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant –

Mae hwn yn fath o gam-drin rhywiol

sy'n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol â phlentyn; creu delweddau anwedus, a/neu unrhyw ddeunyddiau anwedus eraill sy'n ymwneud â phlant

Mae'n cynnwys plentyn

Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed

Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid

Gall y cyfnewid gynnwys rhoi neu dynnu rhywbeth yn ôl, megis atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall.

Efallai y bydd hwylusydd sy'n derbyn rhywbeth yn ogystal â'r plentyn sy'n cael ei gamfanteisio neu yn ei le.

Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd plant yn teimlo fel eu bod wedi rhoi eu caniatâd.

Gellir diffinio **ymddygiadau rhywiol niweidiol** fel: ymddygiadau rhywiol sy'n cael eu harddangos gan blant o dan 18 mlwydd oed sy'n anaddas yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol iddyn nhw neu bobl eraill, neu sy'n gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn arall. Mae'r diffiniad hwn o ymddygiadau rhywiol niweidiol yn cynnwys ymddygiadau â chyswllt â'r rheini heb gyswllt (magu perthynas amhriodol, arddangosiaeth, llygadu a secstio, neu gadw delweddau o weithrediadau rhywiol ar ffonau clyfar neu gymwysiadau cyfryngau cymdeithasol).

Monitro gweithrediad y Cynllun

Bydd y chwe Bwrdd Diogelu yng Nghymru yn adrodd ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu perthnasol a gynhwysir yn y Cynllun hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a osodwyd ar gyfer y llywodraeth. Bydd tri chyfnod adrodd.

	Cyfnod adrodd	Dyddiad yr adroddiad	Trefniadau adrodd
Cyfnod 1	Dyddiad cyhoeddi hyd at 31 Rhagfyr 2019	Byrddau Diogelu Plant i gyflwyno tystiolaeth i Lywodraeth Cymru 31 Ionawr 2020.	Bydd y Byrddau Diogelu Plant yn darparu tystiolaeth fod mesurau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod partneriaid yn ymwybodol o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun ac wedi cytuno ar drefniadau ar gyfer dangos tystiolaeth fod y Cynllun yn cael ei weithredu yn ystod Cyfnod 2 a Chyfnod 3. Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu perthnasol a osodwyd ar gyfer Cyfnod 1.
Cyfnod 2	1 Ionawr 2020 hyd at 31 Rhagfyr 2020	Byrddau Diogelu Plant i gyflwyno tystiolaeth i Lywodraeth Cymru 31 Ionawr 2021.	Bydd y Byrddau Diogelu Plant a Llywodraeth Cymru yn adrodd yn erbyn camau gweithredu perthnasol a osodwyd ar gyfer Cyfnod 2.
Cyfnod 3	1 January 2021 hyd at 31 Rhagfyr 2021	Byrddau Diogelu Plant i gyflwyno tystiolaeth i Lywodraeth Cymru 31 Ionawr 2022.	Bydd y Byrddau Diogelu Plant a Llywodraeth Cymru yn adrodd yn erbyn camau gweithredu perthnasol a osodwyd ar gyfer Cyfnod 3. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dystiolaeth o effaith y Cynllun ar ddiwedd Cyfnod 3.

Amcanion

Mae'r Cynllun hwn yn gosod 33 o gamau gweithredu yn erbyn deg amcan allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddant ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2021.

Trefniadau ar gyfer **atal** cam-drin plant yn rhywiol

Amcan 1: Herio agweddau cyhoeddus tuag at gam-drin plant yn rhywiol a chefnogi diwylliant lle nad yw siarad am gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei ystyried yn bwnc na siaradir amdano mewn modd y gall cyflawnwyr gamfanteisio arno.

Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir.

Amcan 3: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd o sut i helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.

Amcan 4: Mwy o ymwybyddiaeth o sut gall diogelu corfforaethol gyfrannu at atal cam-drin plant yn rhywiol.

Trefniadau ar gyfer **amddiffyn** plant mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol

Amcan 5: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o ffyrdd diogel o ddatgelu cam-drin rhywiol neu berygl o gam-drin rhywiol ac o'r hyn fydd yn digwydd pan fyddant yn dweud wrth rywun.

Amcan 6: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin o'r hyn a ddylai ddigwydd os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, o sut i gynorthwyo plant, ac o sut i gael cymorth iddyn nhw eu hunain.

Amcan 7: Bod gan ymarferwyr fynediad at adnoddau a hyfforddiant i'w paratoi nhw ar gyfer ymateb yn effeithiol, yn amserol ac yn briodol i blant sy'n wynebu risg neu sydd wedi eu cam-drin trwy gam-drin plant yn rhywiol.

Trefniadau ar gyfer **cynorthwyo** plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol

Amcan 8: Casglu tystiolaeth o ba mor aml y mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.

Amcan 9: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a/neu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin rhywiol ar-lein yn cael mynediad at wasanaethau a lywir gan drawma a chymorth therapiwtig priodol sy'n seiliedig ar eu hanghenion gofal a chymorth unigol er mwyn gwella eu llesiant ac atal cam-drin rhag digwydd eto.

Amcan 10: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth i oedolion ac yn cael eu hatgyfeirio'n briodol i'r gwasanaethau hyn wrth iddynt gyrraedd 18 mlwydd oed.

Camau gweithredu

Trefniadau ar gyfer **atal** cam-drin plant yn rhywiol

Y ffordd orau o ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yw ei stopio rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae angen i ni hyrwyddo dealltwriaeth well o gam-drin plant yn rhywiol ymhlith plant, eu teuluoedd, ymarferwyr, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd fel y gallant adnabod ac ymateb i risgiau cam-drin plant yn rhywiol.

Amcan 1: Herio agweddau cyhoeddus tuag at gam-drin plant yn rhywiol a chefnogi diwylliant lle nad yw siarad am gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei ystyried yn bwnc na siaradir amdano mewn modd y gall cyflawnwyr gamfanteisio arno.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A1 – Datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i hybu agweddau tuag at gam-drin plant yn rhywiol a fydd yn cyfrannu at atal cam-drin.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 1
A2 – Hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ym mhob rhanbarth ar hyd a lled Cymru.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		
		Adrodd
A1. Roedd ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i hybu agweddau tuag at gam-drin plant yn rhywiol a fydd yn cyfrannu at atal cam-drin wedi'i chyflawni.		Diwedd Cyfnod 2
A2. Mae'r Byrddau Diogelu Plant yn adrodd ar dystiolaeth o hyrwyddo'r ymgyrch.		Diwedd Cyfnod 2 Diwedd Cyfnod 3

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fath o gam-drin plant arbennig o gynhennus. Mae dealltwriaeth a sylwadau cyffredin ynghylch natur ac amllder cam-drin plant yn rhywiol wedi newid dros amser. Mae hyn wedi cynnwys agweddau hanesyddol tuag at gam-drin plant yn rhywiol, sydd wedi eu llywio gan drafodaethau heriol lle y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi'i wadu a heb ei gredu a lle y mae'r dioddefwyr wedi cael y bai am eu camdriniaeth eu hunain.¹

Mae profiadau a leisiwyd gan bobl sydd wedi goroesi cam-drin plant yn rhywiol i [Brosiect Gwirionedd](#) yr IICSA yn dangos yn gwbl eglur sut mae'r ffordd y deallwyd ac y siaradwyd am gam-drin plant yn rhywiol yn hanesyddol wedi tawelu dioddefwyr, hyd yn oed pan oeddent yn ceisio dweud wrth bobl am yr hyn a oedd yn digwydd iddynt.

Bydd angen i ddeunydd ymgyrchu ystyried sut mae camdybiaethau ac agweddau tuag at gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu llywio gan rywedd ac ethnigrwydd a diwylliant, rhywioldeb ac anabledd.

Mae angen i ni helpu pobl i ddeall sut mae'r ffyrdd rydym yn siarad – neu ddim yn siarad – am gam-drin plant yn rhywiol yn rhan bwysig o newid agweddau ac atal camdriniaeth. Mewn cymunedau lle y mae pobl yn deall bod cam-drin plant yn

rhywiol yn gallu digwydd ac yn digwydd mewn gwirionedd, mae pobl yn fwy tebygol o adnabod y risg ac ymateb yn briodol i atal camdriniaeth rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A3. Cyhoeddi canllawiau i ysgolion ar addysg cydberthynas a rhywioldeb.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2
A4. Datblygu ymgyrch posterï ar gydberthnasau annïogel ac afiach ar gyfer plant a rhieni/gofalwyr.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2
A5. Hyrwyddo gwybodaeth i blant a rhieni/gofalwyr am gydberthnasau iach/afiach.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2
A6. Datblygu llwybr atgyfeirio clir er mwyn i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol dderbyn asesiad help cynnar, fel yr argymhellwyd yng nghanllawiau 2016 y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE). ²	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2 Cyfnod 3
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		
		Adrodd
A3. Tystiolaeth Llywodraeth Cymru o weithredu addysg cydberthynas a rhywioldeb mewn ysgolion.		Diwedd Cyfnod 3
A4. Mae ymgyrch posterï wedi'i lansio gan Lywodraeth Cymru.		Diwedd Cyfnod 2
A5. Mae'r Byrddau Diogelu Plant yn adrodd ar weithgareddau sydd wedi'u cynnal i hyrwyddo gwybodaeth i blant a rhieni/gofalwyr am gydberthnasau iach/afiach.		Diwedd Cyfnod 2
A6. Dywed y Byrddau Diogelu Plant fod llwybrau atgyfeirio lleol a/neu ranbarthol yn eu lle i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol.		Diwedd Cyfnod 3

Mae deall sut mae cydberthnasau yn cael eu ffurfio, eu datblygu a'u cynnal yn ein galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau sy'n ein caniatáu i greu ein cydberthnasau iach ein hunain. Mae'n cefnogi plant i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i lywio'n effeithiol drwy'r dylanwadau hyn sy'n newid yn gyflym a sefydlu cydberthnasau parchus sy'n rhoi boddhad drwy gydol eu bywydau. Gall y rhain gynnwys perthnasau teuluol, cyfeillgarwch, cydberthnasau proffesiynol a pherthnasau rhywiol. Gall hefyd helpu plant i adnabod pan fydd pethau'n digwydd yn eu perthynas ag eraill nad ydynt yn iach na'n briodol.

Gwefan ddwyieithog yw SchoolBeat.cymru o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan sy'n rhoi gwybodaeth ac adnoddau i ddisgyblion, athrawon, rhieni a phartneriaid i atgyfnerthu'r negeseuon allweddol a gaiff eu cyfleu gan ein Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal ag mewn lleoliadau addysgol amgen. Mae gan y safle hwn hefyd wybodaeth am y gwersi thema a gynigir gan Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, gan gynnwys, er enghraifft, 'Stori Griff', sef gwerns Blwyddyn 6 a ddyluniwyd i addysgu disgyblion am broblemau cam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol. Gwers ysgol uwchradd yw 'Pictiwr Peryg' am ganlyniadau cymdeithasol ac emosiynol secstio a'r

hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud. Mae'r safle'n cynnwys adnoddau ar gydberthnasau iach.

[Gwybodaeth am gydberthnasau anniogel ar gyfer rhieni](#)

[Gwybodaeth ar gyfer plant ysgolion cynradd](#)

[Gwybodaeth ar gyfer plant ysgolion uwchradd](#)

Mae'n rhaid ystyried ymddygiad rhywiol sy'n broblematic ar gontinwwm o ymddygiad sy'n amrywio o normal i niweidiol ac, mewn nifer fach o achosion, camdriniaethol. Mae'n rhaid i'n hymatebion i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol gynnwys cymorth cynnar i atal niwed iddyn nhw ac i blant eraill. Bydd ymyrryd yn gynnar er mwyn i blant ddeall pam y credir bod eu hymddygiad yn amhriodol fel bod modd nodi unrhyw broblemau sylfaenol yn eu hamddiffyn rhag mwy o niwed ac yn atal plant eraill rhag cael eu cam-drin.

Amcan 3: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd o sut i helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A7. Datblygu adnoddau i gynorthwyo rhieni/gofalwyr o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), rhieni/gofalwyr â phlant anabl a rhieni/gofalwyr â phlant LHDT+ ac ymarferwyr i ddeall cam-drin plant yn rhywiol a sut gallant helpu i gadw plant yn ddiogel.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2
A8. Datblygu adnoddau i gynorthwyo rhieni/gofalwyr o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), rhieni/gofalwyr â phlant anabl a rhieni/gofalwyr â phlant LHDT+ ac ymarferwyr i ddeall cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destun materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut gallant helpu i gadw eu plant yn ddiogel drwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth a sesiynau dysgu.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 3
A9. Datblygu ac ymgynghori ar god ymarfer diogelu gwirfoddol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol a chanllawiau cysylltiedig i rieni.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2 Cyfnod 3
A10. Datblygu canllawiau ymarfer anstatudol i gefnogi'r rhai hynny sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg i reoli achosion o gamdriniaeth ymhlith cyfoedion o fewn lleoliadau addysg. Bydd y canllawiau'n darparu cyngor ar sicrhau, pan fydd pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol, y gall plant barhau i dderbyn addysg mewn modd sy'n ddiogel iddyn nhw ac i ddysgwyr	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2

eraill.		
A11. Datblygu adnoddau gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr a rhieni/gofalwyr ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2
A12. Hyrwyddo gwybodaeth ac adnoddau ar gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, gan gynnwys gwybodaeth y gall ymarferwyr ei rhannu â phlant a'u teuluoedd.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2 Cyfnod 3
A13. Cefnogi ymarferwyr i ddysgu am gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein, gan gynnwys ymwybyddiaeth o ganllawiau, gweithdrefnau ac arweinyfrau ymarfer perthnasol. Dylai hyn gynnwys hybu dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, fel rhywedd, ethnigrwydd, rhywioldeb ac anabled.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2 Cyfnod 3

Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:

	Adrodd
A7. Mae adnoddau i gynorthwyo rhieni/gofalwyr o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), rhieni/gofalwyr â phlant anabl a rhieni/gofalwyr â phlant LHDT+ ac ymarferwyr i ddeall cam-drin plant yn rhywiol ar gael.	Diwedd Cyfnod 2
A8. Mae adnoddau i gynorthwyo rhieni/gofalwyr o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), rhieni/gofalwyr â phlant anabl a rhieni/gofalwyr â phlant LHDT+ ac ymarferwyr i ddeall cam-drin plant yn rhywiol wedi'u hyrwyddo drwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth a sesiynau dysgu.	Diwedd Cyfnod 3
A9. Mae cod ymarfer diogelu gwirfoddol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol a chanllawiau cysylltiedig i rieni wedi cael eu cyhoeddi.	Diwedd Cyfnod 3
A10. Mae canllawiau ymarfer anstatudol ar reoli achosion o gamdriniaeth ymhlith cyfoedion o fewn lleoliadau addysg ar gael ac yn cael eu hyrwyddo.	Diwedd Cyfnod 2
A11. Mae adnoddau gwybodaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol ar gael i bartneriaid ar y Byrddau Diogelu.	Diwedd Cyfnod 2
A12. Dengys Byrddau Diogelu Plant fod ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn ymwybodol o wybodaeth ac adnoddau ar gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein, ac maent yn rhannu'r wybodaeth hon yn briodol â phlant a theuluoedd.	Diwedd Cyfnod 3
A13. Mae Byrddau Diogelu Plant yn dangos cyfleoedd i ymarferwyr ddysgu am gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein a bod	Diwedd Cyfnod 2 Diwedd Cyfnod 3

Dylai ymarferwyr sydd mewn cysylltiad â phlant a'u teuluoedd geisio rhannu gwybodaeth â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd am yr adnoddau sydd ar gael a'r angen i fod yn ymwybodol o'r ffyrdd y gallant helpu i gadw'r plant dan eu gofal yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol. Dylai hyn gynnwys deall yr effaith y gall cam-drin plant yn rhywiol ar-lein heb gysylltiad ei chael ar blant.

Gellir cefnogi dysgu ymarferwyr mewn nifer o ffyrdd, drwy ledaenu gwybodaeth ac adnoddau, drwy ddysgu ar-lein, a thrwy godi ymwybyddiaeth yn uniongyrchol a hyfforddiant. Gellir hybu arferion da drwy gynnwys diogelu fel eitem sefydlog mewn cyfarfodydd tîm a thrwy oruchwylio. Gall hyn gynorthwyo asiantaethau i nodi anghenion dysgu ymarferwyr.

Yn 2018, gwnaeth Llywodraeth Cymru ariannu [Stop it Now!Wales](#) er mwyn datblygu a chyflenwi ymgyrch a anelwyd at drechu cam-drin plant yn rhywiol, drwy alluogi'r cyhoedd i chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol. Gwnaeth yr ymgyrch *Child Sexual Abuse – What we all need to know* gyfleu cyngor a gwybodaeth allweddol i'r cyhoedd drwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth a oedd yn cynnwys cyfryngau traddodiadol, cyfryngau cymdeithasol ac [adnoddau](#). Ar yr un pryd, cafodd sesiynau dysgu i rieni/gofalwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd eu cynnal ar draws chwe rhanbarth y Byrddau Diogelu Plant. Mae adnoddau priodol i oedran hefyd ar gael ar gyfer y blynyddoedd cynnar – er enghraifft, deunydd [Siarad Pants yr NCPCC](#).

Mae angen i rieni/gofalwyr fod yn ymwybodol o'r ffyrdd y gallant wirio a yw'r oedolion y maent yn eu caniatáu i fod mewn cysylltiad â'u plant yn ddiogel neu a allent gyflwyno risg i'w plant.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynhyrchu gwybodaeth am y [Cynllun Datgelu Troseddwyr Rhyw â Phlant](#), sy'n cynnwys gwybodaeth i rieni ac i ymarferwyr a deunydd cyfathrebu i hyrwyddo'r wybodaeth hon.

Mae Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon yr NSPCC (CPSU) wedi cynhyrchu [Cadw plant yn ddiogel mewn chwaraeon – siarter i rieni](#), sy'n rhoi cyngor ar sut gall rhieni wirio bod eu plentyn yn mynychu gweithgaredd chwaraeon sydd â mesurau diogelu ar waith.

Bydd nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn cael eu cyflwyno pan fydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu cyhoeddi. Bydd y rhain yn cynnwys Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar ganllawiau newydd ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7 – Diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant*. Dylai ymarferwyr fod yn gyfarwydd â'r canllawiau newydd hyn ac â'r Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan pan fyddant yn cael eu cyhoeddi. Dylai ymarferwyr hefyd fod yn gyfarwydd ag [adnoddau](#) Stop it Now!

Mae tystiolaeth³ y gallai fod gan ymarferwyr lai o wybodaeth a dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol mewn perthynas â phlant o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), plant anabl, a phlant Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thraws+ (LHDT+), lle mae rhwystrau pellach i'w adnabod. Mae Llywodraeth Cymru

yn bwriadu comisiynu adnoddau a digwyddiadau dysgu i wella dealltwriaeth ymarferwyr a rhieni/gofalwyr.

Pan fydd achos o gam-drin ymhlith cymheiriaid mewn ysgol neu lleoliad addysg arall, neu pan fydd pryderon ynghylch dysgwr mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol niweidiol, dylai'r holl rai hynny sy'n gweithio yn y lleoliad addysg gael eu cefnogi i reoli achosion yn effeithiol. Dylid cynllunio ar gyfer pob achos a'i reoli er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ddiogel ac nad yw'r cyfleoedd addysg ar gyfer plant ag ymddygiad rhywiol niweidiol a dysgwyr eraill yn cael eu heffeithio'n negyddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau ar reoli cam-drin ymhlith cymheiriaid ac ymddygiad rhywiol niweidiol mewn lleoliadau addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu ac ymgynghori ar god ymarfer diogelu gwirfoddol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol a chanllawiau cysylltiedig i rieni. Bydd y cod yn nodi'r disgwyliadau diogelu ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol a bydd gwybodaeth i rieni yn eu cynorthwyo i ddewis gweithgareddau i'w plant mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol lle mae mesurau diogelu ar waith.

Amcan 4: Mwy o ymwybyddiaeth o sut gall diogelu corfforaethol gyfrannu at atal cam-drin plant yn rhywiol.		
Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A14. Datblygu polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i'w ystyried gan bartneriaid ar y Byrddau Diogelu.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2
A15. Ystyried mabwysiadu polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 3
A16. Ystyried dysgu o'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol ar gymdogaethau ac ystyried safle pilot rhanbarthol ar gyfer y pecyn cymorth Asesu Cymdogaeth.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2 Cyfnod 3
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		
		Adrodd
A14. Mae polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol ar gael.		Diwedd Cyfnod 2
A15. Adrodda'r Bwrdd Diogelu Plant fod y polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol wedi'i ddsbarthu i bartneriaid i'w ystyried, a bod partneriaid wedi adolygu eu polisi diogelu corfforaethol cyfredol yn erbyn y polisi enghreifftiol.		Diwedd Cyfnod 3
A16. Adrodda'r Bwrdd Diogelu Plant fod y dysgu o'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol ar gymdogaethau wedi'i ddsbarthu i bartneriaid, a byddant yn adrodd ar a oes safle pilot rhanbarthol wedi bod neu i ddod ar gyfer Asesu Cymdogaeth.		Diwedd Cyfnod 3

Gwnaeth adolygiad o drefniadau diogelu corfforaethol awdurdodau lleol a gynhaliwyd gan [Swyddfa Archwilio Cymru a'i gyhoeddi yn 2015](#) gyflwyno

argymhellion ynghylch nifer o feysydd i'w gwella. Mae gan ddiogelu corfforaethol rôl graidd mewn sicrhau bod mesurau digonol ar waith i gadw plant yn ddiogel. Gall diogelu corfforaethol hefyd chwarae rhan mewn sicrhau bod trefniadau caffael a thrwyddedu'n hyrwyddo diogelu. Mae ychydig o arfer da eisoes ar waith o ran gofynion hyfforddi ar yrwyr tacsï trwyddedig, er enghraifft, ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Gellid hefyd gwneud mwy o ran gwiriadau diwydrwydd dyladwy diogelu ar unigolion neu sefydliadau sy'n gwneud cais i rentu safleoedd corfforaethol er mwyn cynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â phlant.

Mae diogelu corfforaethol hefyd yn bwysig o ran atal cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol, ac mae tystiolaeth o hyn wedi'i chynnwys yn [Negeseuon allweddol o ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol sefydliadol \(2018\)](#), a gyhoeddwyd gan Ganolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol. Mae prosesau recriwtio a dethol trylwyr a'r angen i sefydliadau greu diwylliant agored lle ystyrir diogelu yn fusnes i bawb yn sicrhau bod gan blant fannau diogel a chydberthnasau cadarnhaol â nifer o aelodau'r staff, a dylai prosesau sefydliadol (fel gweithdrefnau cydweithio, goruchwyllo a chwythu'r chwiban) fod ar waith i leihau'r cyfleoedd i gamdriniaeth ddigwydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag CLILC i ddatblygu polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol er mwyn llywio gwelliannau a chysondeb mewn trefniadau lleol a rhanbarthol.

Mae cymdogaethau wedi'u nodi fel safleoedd lle gall pobl ifanc brofi a/neu gael eu diogelu rhag camdriniaeth a thrais, o brofiadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn bwytaï bwyd brys, camfanteisio troseddol mewn parciau, a thrais ieuencid difrifol ar lwybrau trafndiaeth i weld cyffuriau'n cael eu defnyddio a gwerthu cyffuriau mewn cartrefi oedolion sy'n agored i niwed. Er bod asiantaethau eisoes yn gweithio i gadw pobl ifanc yn ddiogel y tu allan i'r cartref, fel diogelwch cymdogaeth a'r heddlu, mae prif bwyslais y gwaith hwn ar atal troseddau yn hytrach nag ar lesiant a diogelu plant. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod nifer o ffyrdd y gall pobl ifanc gael eu diogelu rhag niwed mewn mannau yn y gymdogaeth – o gynllunio mewn ffordd sy'n rhwystro cyfleoedd i gam-drin rhag digwydd i greu cyfleoedd ar gyfer gwarcheidwaid cymunedol. Mae'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol, Prifysgol Swydd Bedford, yn cynnig [Pecyn Cymorth Asesu Cymdogaeth](#) ar-lein, a fydd yn cynorthwyo partneriaid i ystyried materion perthnasol er mwyn cefnogi cymunedau mwy diogel.

Trefniadau ar gyfer **amddiffyn** plant mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol

Un o'r anawsterau wrth geisio amcangyfrif amllder achosion o gam-drin plant yn rhywiol yw bod cymaint o achosion o gam-drin rhywiol yn parhau i fod heb eu hadnabod. Mae'n anghyffredin i blant wneud datgeliad, felly mae angen i weithwyr proffesiynol ac oedolion cyfrifol eraill allu gweld yr arwyddion o gam-drin posibl a chymryd camau priodol. Mae plant yn cadw'n dawel am nifer o resymau, gan gynnwys ofni'r sawl sy'n eu cam-drin, ddim eisiau i'r sawl sy'n eu cam-drin fod mewn trwbl, teimlo mai 'eu bai nhw' yw hi eu bod yn cael eu cam-drin, a theimlo'n gyfrifol am yr hyn fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud wrth rywun. Bydd cefnogi dealltwriaeth well o gam-drin plant yn rhywiol ymhlith plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ac ymarferwyr o gymorth i adnabod mwy o achosion a chael mwy o ddatgeliadau fel y gall plant gael eu hamddiffyn cyn gynted â phosibl.

Amcan 5: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o ffyrdd diogel o ddatgelu cam-drin rhywiol neu berygl o gam-drin rhywiol ac o'r hyn fydd yn digwydd pan fyddant yn dweud wrth rywun.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A17. Hyrwyddo adnoddau i ysgolion sy'n rhoi gwybodaeth i blant am ffyrdd diogel o godi llais ynghylch camdriniaeth.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 1
A18. Hyrwyddo adnoddau sy'n rhoi gwybodaeth i blant ar ffyrdd diogel o godi llais ynghylch camdriniaeth.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 1 Cyfnod 2 Cyfnod 3
A19. Datblygu adnoddau i blant ar yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth oedolyn eu bod yn cael eu cam-drin.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 1 Cyfnod 2
A20. Hyrwyddo adnoddau i blant ar yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth oedolyn eu bod yn cael eu cam-drin.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2 Cyfnod 3
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		
		Adrodd
A17. Gweithgaredd hyrwyddo adroddiad Llywodraeth Cymru.		Diwedd Cyfnod 1
A18. Mae Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth o hyrwyddo adnoddau i blant ar ffyrdd diogel o godi llais ynghylch camdriniaeth.		Diwedd Cyfnod 1 Diwedd Cyfnod 2 Diwedd Cyfnod 3
A19. Mae adnoddau ar gael i blant ar yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth oedolyn eu bod yn cael eu cam-drin.		Diwedd Cyfnod 2
A20. Mae Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth o hyrwyddo adnoddau i blant ar yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth oedolyn eu bod yn cael eu cam-drin.		Diwedd Cyfnod 3

Am y tro cyntaf, gwnaeth Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2015 i 2016 redeg modiwl o gwestiynau a oedd yn gofyn i oedolion a oeddent wedi cael eu cam-drin pan oeddent yn blant.⁴ Holwyd i oroeswyr a nododd eu bod wedi dioddef ymosodiadau rhywiol pan oeddent yn blant drwy dreisiad neu dreiddiad (gan gynnwys ymgeisiau) a wnaethant ddweud wrth unrhyw un am yr hyn a oedd yn digwydd iddynt ar adeg y cam-drin. Ni wnaeth ychydig o dan dri chwarter o'r goroeswyr (74%) ddweud wrth unrhyw un am y cam-drin ar yr adeg yr oedd y cam-drin yn digwydd. Fodd bynnag, ar adeg y cyfweiliad, roedd y rhai hynny a oedd yn 45 oed neu'n iau yn fwy tebygol o lawer na'r rhai hynny rhwng 45 a 59 oed o fod wedi dweud wrth rywun ar yr adeg y digwyddodd y cam-drin. Mae hyn yn dangos i raddau fod cyfraddau datgelu wedi cynyddu dros amser. Dim ond un o bob 10 (10%) o bawb a oresgynnodd ymosodiadau rhywiol pan oeddent yn blant drwy dreisiad neu dreiddiad (gan gynnwys ymgeisiau) a ddywedodd wrth rywun swyddogol am y cam-drin ar y pryd, a gwnaeth 7% o'r rhain adrodd y cam-drin i'r heddlu.

Ni chaiff llawer o gam-drin mewn teuluoedd ei ddatgelu o hyd. Gallai fod ar blant ofn y sawl sy'n eu cam-drin, neu efallai nad ydynt eisiau i'r sawl sy'n eu cam-drin fod mewn trwbl, yn teimlo mai 'eu bai nhw' oedd hi eu bod yn cael eu cam-drin, ac yn teimlo'n gyfrifol am yr hyn fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud wrth rywun. Mae plant anabl, plant LHDT+ a rhai plant o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn wynebu rhwystrau ychwanegol. Mewn rhai cymunedau, bydd credoau diwylliannol ynghylch 'parch' yn effeithio ar y ffordd y mae aelodau o'r teulu a'r gymuned ehangach yn ymateb i blentyn sy'n cael ei gam-drin yn rhywiol, a gall hyn beri i'r plentyn ac aelodau cefnogol o'r teulu gadw'n dawel. Gall camdriniaeth gan aelod o'r teulu fod yn arbennig o drawmatig am ei fod yn ymwneud â lefelau uchel o frad, gwarth a chyfrinachedd. Mae Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol wedi cyhoeddi [Negeseuon allweddol o ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu \(2018\)](#).

Defnyddir y term 'cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol' i wahaniaethu rhwng cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destun sefydliadol a'r hyn sy'n digwydd mewn teulu neu leoliad arall. Gall ddigwydd mewn amrywiaeth eang o leoliadau pan fydd gan unigolion bŵer dros y plant neu pan fydd y plant yn ymddiried ynddynt. Gall cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol gael ei wneud gan unigolyn ar un dioddefwr, ond, yn aml, mae gan y rhai hynny sy'n cam-drin mewn lleoliad sefydliadol ddioddefwyr lluosog. Gall cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol hefyd ymwneud â nifer o bobl yn cam-drin o fewn yr un sefydliad, ac mae hyn yn cynnwys cam-drin gan gyfoedion yng nghyd-destun diwylliant cam-drin sefydliadol. Mae llawer o achosion o gam-drin plant yn rhywiol nad ydynt yn rhai diweddar wedi cael eu cysylltu â sefydliadau, lle nad yw'r cam-drin wedi ei ddatgelu'n aml am lawer o flynyddoedd.⁵

Mae [poster i staff ysgol](#) ar gael i'w lawrlwytho sy'n rhoi cyngor i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod.

Mae angen i blant wybod y bydd rhywun yn gwrandao arnynt ac y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif. Dylai pob lleoliad addysgol geisio dangos i blant ei fod yn gallu cynnig amgylchedd diogel iddynt allu siarad am faterion sy'n effeithio arnynt. Gall arddangos gwybodaeth am linellau cymorth cenedlaethol i blant, fel [Comisiynydd Plant Cymru](#), [Childline](#), [Meic](#), [yr NSPCC](#) a chynlluniau cymorth cyfoedion, mewn lleoedd hawdd eu gweld, megis mewn cynllunwyr blwyddyn disgyblion, eu hannog i rannu pryderon a chael help. Mae posteri hefyd ar gael i

ddarparu cymorth i blant i godi eu llais pan fydd ganddynt bryder: [Cyngor i blant ysgolion cynradd](#) a [Chyngor i blant ysgolion uwchradd](#). Dylai pob lleoliad addysgol, fel arfer effeithiol, arddangos y posteri hyn ar ei safle mewn man amlwg i blant.

Mae oedolion sydd wedi goroesi wedi dweud wrthym am y bygythiadau a ddefnyddiwyd yn eu herbryn gan y sawl a wnaeth eu cam-drin er mwyn eu cadw'n dawel pan oeddent yn blant. Mae goroeswyr sydd wedi siarad â'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) drwy'r [Prosiect Gwirionedd](#) wedi siarad hefyd am y ffyrdd y gwnaeth eu camdrinwyr ac oedolion eraill yr oeddent yn ymddiried ynddynt eu tawelu.

Mae oedolion sydd wedi goroesi wedi dweud wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'w helpu i ddeall yr hyn a allai ddigwydd mewn gwirionedd pe bai nhw'n dweud wrth rywun am y cam-drin. Felly, llywiwyd eu dealltwriaeth gan y rhai hynny a oedd yn eu cam-drin er mwyn eu tawelu. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau ar gyfer plant i egluro beth fydd yn digwydd mewn gwirionedd os byddant yn datgelu i oedolion diogel eu bod yn cael eu cam-drin yn rhywiol.

Amcan 6: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin o'r hyn a ddylai ddigwydd os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, o sut i gynorthwyo plant, ac o sut i gael cymorth iddyn nhw eu hunain.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A21. Datblygu adnoddau ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ar y broses sy'n ymwneud ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol a'r ffyrdd gorau o gynorthwyo plant ac ar ffynonellau o help a chefnogaeth i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2
A22. Hyrwyddo adnoddau ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ar y broses sy'n ymwneud ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol, ar y ffyrdd gorau o gynorthwyo plant, ac ar ffynonellau o help a chefnogaeth i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 3
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		
		Adrodd
A21. Mae adnoddau ar gael ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.		Diwedd Cyfnod 2
A22. Mae Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth o hyrwyddo adnoddau'n briodol i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.		Diwedd Cyfnod 3

Ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi'i wneud ar effaith cam-drin plant yn rhywiol ar rieni nad ydynt yn cam-drin,⁶ ond mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod angen mynediad i wybodaeth ar rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin am y prosesau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol, cyngor ar sut i gefnogi eu plentyn/plant, a chymorth gyda'r effaith emosiynol y mae cam-drin plant yn rhywiol yn ei chael ar y plentyn a'r teulu.

Mae Stop it Now! wedi cynhyrchu [adnodd](#) a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i rieni, gofalwyr ac aelodau eraill o'r teulu ar atal cam-drin plant yn rhywiol, sy'n cynnwys ychydig o gyngor ar ymateb i blant a'u cefnogi. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau pellach ar gyfer rhieni/gofalwyr ar y broses sy'n ymwneud ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol, ar y ffyrdd gorau o gynorthwyo plant, ac ar ffynonellau o help a chefnogaeth i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.

Mae tystiolaeth gan [PACE](#) yn nodi bod rhieni a gofalwyr plant sydd wedi'u heffeithio gan gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi adrodd 'dioddefwr yn beio'r teulu', teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi i reoli effaith emosiynol rhianta plentyn sydd wedi'i gam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a theimlo nad oes unrhyw un yn gwranddo arnynt nac yn eu cymryd o ddifrif. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau ar gyfer teuluoedd a gofalwyr maeth ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant, gydag awgrymiadau ymarferol ar beth i'w wneud i reoli camfanteisio'n rhywiol ar blant o fewn y teulu a gwybodaeth am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd, pwy allai fod yn gysylltiedig â'r achos, ac o le y gallant gael cymorth.

Yn 2018, gwnaeth rhieni plant a oedd yn derbyn cymorth ar gyfer ymddygiad rhywiol niweidiol gymryd rhan mewn ymgynghoriad bychan a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.⁷ Gwnaethant nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu, yn teimlo gwarth ac yn teimlo'n ynysig gan y profiad o gael plentyn yr oedd arno angen cymorth oherwydd ymddygiad rhywiol niweidiol. Ac roedd hyn, yn ei dro, yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl y rhiant. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau ar gyfer teuluoedd a gofalwyr maeth ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant, gydag awgrymiadau ymarferol ar beth i'w wneud i reoli camfanteisio'n rhywiol ar blant o fewn y teulu a gwybodaeth am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd, pwy allai fod yn gysylltiedig â'r achos, ac o le y gallant gael cymorth.

Amcan 7: Bod gan ymarferwyr fynediad at adnoddau a hyfforddiant i'w paratoi nhw ar gyfer ymateb yn effeithiol, yn amserol ac yn briodol i blant sy'n wynebu risg neu sydd wedi eu cam-drin trwy gam-drin plant yn rhywiol.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A23. Datblygu adnoddau hyfforddi i ymarferwyr ar ymdrin â datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol, y broses ymchwilio, a chefnogi teuluoedd a effeithiwyd gan gam-drin plant yn rhywiol.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 3
A24. Cefnogi dysgu ymarferwyr ar ymdrin â datgeliadau o gam-drin, y broses ymchwilio, a chefnogi teuluoedd a effeithiwyd gan gam-drin plant yn rhywiol.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 3

Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:	
	Adrodd
A23. Mae adnoddau hyfforddi ar gael i ymarferwyr.	Diwedd Cyfnod 3
A24. Mae Byrddau Diogelu Plant yn dangos cyfleoedd i ymarferwyr ddysgu am sut i ymdrin â datgeliadau o gam-drin, y broses ymchwilio a chefnogi teuluoedd a effeithir gan gam-drin plant yn rhywiol ac yn dangos bod ymarferwyr yn manteisio ar y dysgu hwn.	Diwedd Cyfnod 3

Canfu ymchwil a wnaed gan yr NSPCC⁸ nad yw oedolion bob amser yn adnabod, yn deall nac yn ymateb yn briodol pan fydd plentyn yn dechrau dweud wrthynt am ei brofiadau o gam-drin. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i'r NSPCC yn 2018 i gefnogi'r gwaith o greu [adnoddau](#) a chynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i gefnogi ymarferwyr wrth ymateb i ddatgeliad o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae ymchwilio i honiadau o gam-drin plant yn gam hollbwysig yn yr ymdrech i amddiffyn plant. Er y bydd asiantaethau eraill yn ymwneud ag agweddau ar y broses ymchwilio, yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n bennaf gyfrifol am yr ymchwiliad. Gall hyfforddiant gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ystod y broses ymchwilio ar y cyd.

Mae Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol wedi cynhyrchu adroddiad a [ffilm](#) a lywir gan dystiolaeth i helpu ymarferwyr o gefndiroedd amlasiantaeth i ddeall rôl a diben archwiliad meddygol yn well mewn sefyllfaoedd lle mae achos o gam-drin plant yn rhywiol wedi'i ddatgelu neu'n cael ei amau. Mae'n gymwys i unrhyw leoliad lle y gallai plant gael eu gweld am archwiliad meddygol, ac mae'n berthnasol i achosion diweddar a hen achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae angen gwybodaeth ar ymarferwyr am y dulliau y dangoswyd i gynorthwyo plant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol er mwyn cefnogi eu hadferiad a'u llesiant, a'r dulliau i gefnogi aelodau o'r teulu nad ydynt yn cam-drin a gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl sy'n cefnogi plant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol drwy eu hadferiad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn o adnoddau hyfforddi i gynorthwyo ymarferwyr i ymdrin â datgeliadau a'r broses ymchwilio ac i gefnogi'r plant a'u teuluoedd a effeithiwyd gan gam-drin plant yn rhywiol.

Trefniadau ar gyfer **cynorthwyo** plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol

Mae cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein yn gallu cael effaith negyddol, ac yn gwneud hynny, ar ganlyniadau llesiant plant ymhell wedi iddynt dyfu'n oedolion. Rhaid i'n hymatebion i blant gynnwys cymorth ar sail tystiolaeth sy'n debygol o gefnogi adferiad o'r trawma sy'n gysylltiedig â cham-drin, adeiladu gwydnwch, a sicrhau gwelliannau mwy hirdymor i'w llesiant.

Amcan 8: Casglu tystiolaeth o ba mor aml y mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A25. Rhannol ariannu ymchwil Canolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol: <i>Datgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol: Astudiaeth Cymru.</i>	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 1
A26. Ystyried goblygiadau chanfyddiadau gwaith ymchwil <i>Datgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol: Astudiaeth Cymru</i> wrth adolygu amlder tebygol achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2 Cyfnod 3
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		
		Adrodd
A25. Caiff adroddiad a chanfyddiadau gwaith ymchwil <i>Datgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol: Astudiaeth Cymru</i> eu cyhoeddi a'u lledaenu.		Diwedd Cyfnod 1
A26. Noda'r Byrddau Diogelu Plant eu bod wedi ystyried goblygiadau'r gwaith ymchwil wrth adolygu amlder tebygol achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth ac unrhyw gamau gweithredu arfaethedig o ganlyniad i hyn.		Diwedd Cyfnod 3

Y brif ffynhonnell o dystiolaeth ar amlder achosion o gam-drin plant yn rhywiol yw'r Gofrestr Amddiffyn Plant ar hyn o bryd, ond gwyddom nad yw pob achos o gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei adrodd. Ar yr un pryd, mae cyfran y plant ar gynllun diogelu am gam-drin rhywiol yng Nghymru wedi syrthio o 21% yn 1993/4 i 4% yn 2016/17, sydd gyfwerth â gostyngiad o 331 o blant i 120 o blant. Yn ystod yr un cyfnod, cam-drin rhywiol oedd wrth wraidd rhwng 24% a 48% o'r cofrestradau am resymau amrywiol; yn y flwyddyn ddiweddaraf, nodwyd cam-drin rhywiol mewn 30 (24%) o 125 o achosion 'lluosog'.⁹ Yn gyffredinol, y Gofrestr Amddiffyn Plant a ddefnyddir fel y brif ffynhonnell o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch gosod blaenoriaethau, dyrannu adnoddau a hyfforddiant.

Mae astudiaeth gwmpasu a gyhoeddwyd gan Ganolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol yn nodi, os ystyrir yr amrywiadau mewn astudiaethau amllder ar gyfer Cymru a Lloegr, yr awgryma'r data a ystyrir yn yr astudiaeth fod oddeutu 15% o ferched a 5% o fechgyn yn profi rhyw fath o gam-drin rhywiol cyn iddynt gyrraedd 16 oed, gan gynnwys cam-drin gan oedolion a chyfoedion. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd a nifer y cwestiynau a holwyd yn effeithio ar yr amcangyfrifon; ar yr ochr uchaf, mae amcangyfrifon rhyngwladol yn cyrraedd 30% i ferched a 23% i fechgyn.

Mae hyn yn awgrymu efallai nad data'r Gofrestr Amddiffyn Plant, yn enwedig yng nghyd-destun lleihau cofrestrïadau ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, yw'r ffynhonnell orau o dystiolaeth i lywio gwaith cynllunio er mwyn diwallu anghenion plant. Caiff hyn ei gymhlethu mwy gan y ffaith ei bod yn bosibl nad oes llawer o blant a gaiff eu cam-drin yn rhywiol drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod rhai achosion o gam-drin rhywiol yn digwydd y tu allan i'r teulu a'r ffaith fod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynrychioli gormod o ran cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannol ariannu gwaith ymchwil a arweinir gan Ganolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol: *Datgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol: Astudiaeth Cymru*. Bydd y gwaith ymchwil yn cael ei wneud mewn dau awdurdod lleol yng Nghymru, a bydd yn helpu i ennyn dealltwriaeth well o nifer y plant sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol lle y nodwyd eu bod wedi dioddef cam-drin plant yn rhywiol a cham-drin rhywiol drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Dylai'r gwaith ymchwil cynorthwyo partneriaid ar y Byrddau Diogelu hefyd i ystyried y ffordd orau o ddangos cyfraddau amllder achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol cyfredol ar gyfer awdurdodau lleol yn 2016 fel cod ymarfer. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith perfformiad a gwella newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020, gyda'r ffurflenni cychwynnol i gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2021. Mae'r fframwaith newydd hwn yn cynnwys data meintiol a fydd yn dangos nifer a llif yr unigolion drwy'r system gofal cymdeithasol, a bydd yn casglu data ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant am y tro cyntaf.

Amcan 9: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a/neu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin rhywiol ar-lein yn cael mynediad at wasanaethau a lywir gan drawma a chymorth therapiwtig priodol sy'n seiliedig ar eu hanghenion gofal a chymorth unigol er mwyn gwella eu llesiant ac atal cam-drin rhag digwydd eto.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A27. Cefnogi datblygiad manyleb gwasanaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru gyda Chydweithrediaeth lechyd GIG Cymru, gan ystyried amrywiaeth o fodolau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 1 Cyfnod 2

A28. Ymgynghori ar lwybr clinigol i blant sydd wedi datgelu cam-drin plant yn rhywiol / plant y mae Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru wedi'u nodi fel rhai sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a chefnogi datblygiad y llwybr hwn.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 1 Cyfnod 2 Cyfnod 3
A29. Cefnogi datblygiad ar sail tystiolaeth y cynnig ar gyfer cymorth therapiwtig i blant sydd wedi'u heffeithio gan drawma sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 1 Cyfnod 2 Cyfnod 3
A30. Hyrwyddo tystiolaeth a dysgu o'r prosiect Gwella a ariennir gan Lywodraeth Cymru.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2 Cyfnod 3
A31. Cynnal adolygiad o'r cymorth therapiwtig sydd ar gael i blant sydd wedi dioddef cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol neu gam-drin rhywiol ar-lein yn y rhanbarth, fel y gellir nodi a mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 2 Cyfnod 3
Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd:		
		Adrodd
A27. Mae manyleb gwasanaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru yn ei lle.		Diwedd Cyfnod 2
A28. Mae llwybr clinigol i blant sydd wedi datgelu cam-drin plant yn rhywiol / plant sydd wedi'u nodi fel rhai sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol wedi ei ddatblygu ac mae ymgynghoriad wedi'i gynnal arno.		Diwedd Cyfnod 3
A29. Adrodd tystiolaeth ar effaith gweithredu'r cynnig ar gyfer cymorth therapiwtig i blant sydd wedi'u heffeithio gan drawma sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.		Diwedd Cyfnod 3
A30. Adrodd tystiolaeth ar y ffyrdd yr hyrwyddwyd dysgu o'r prosiect Gwella.		Diwedd Cyfnod 3
A31. Noda'r Byrddau Diogelu Plant fod adolygiad wedi ei gwblhau a'i ystyried gan y Bwrdd, a bydd yn adrodd unrhyw gynlluniau datblygu rhanbarthol a ddaw yn sgil hyn.		Diwedd Cyfnod 3

Pan fydd plentyn yn datgelu digwyddiad o gam-drin plant yn rhywiol neu pan fydd tystiolaeth i awgrymu ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, dylid ei atgyfeirio i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC). Mae'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn gyfleuster dynodedig sy'n darparu gofal ar unwaith a gofal parhaus i gleientiaid, gan gynnwys cymorth meddygol, ymarferol ac emosiynol o fewn cyd-destun trefniant partneriaeth rhwng yr heddlu, y sector iechyd a'r trydydd sector. Gwnaeth canfyddiadau adolygiad gan Lywodraeth Cymru yn 2013 ffurfio'r

achos dros newid i gynnal adolygiadau amlasiantaeth o wasanaethau ymosodiadau rhywiol, gan gynnwys y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ledled canolbarth, de a gorllewin Cymru, dan arweiniad Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru. Cafodd model gwasanaeth ei ddatblygu a'i gytuno mewn egwyddor yn 2016. Ym mis Mehefin 2018, cytunodd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i arwain cam nesaf y model gwasanaeth newydd (gweithredu). Sefydlwyd Bwrdd Prosiect, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o'r holl asiantaethau partner: o'r sector iechyd; heddluoedd Gwent, De Cymru a Dyfed Powys; y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ar gyfer y rhanbarthau hyn; Llwybrau Newydd¹⁰ fel darparwr trydydd sector yn y rhanbarth; ac o Fyrddau Diogelu'r rhanbarth.

Nid oedd gogledd Cymru yn rhan o'r gwaith datblygu gwasanaethau cychwynnol ar gyfer adolygiadau amlasiantaeth o wasanaethau ymosodiadau rhywiol gan fod un Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ledled rhanbarth gogledd Cymru, ond cydnabyddir bod buddion sylweddol i weithio ledled Cymru ac mae gogledd Cymru'n aelodau gweithredol o grŵp cynllunio gweithredu a grwpiau gorchwyl a gorffen prosiect y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

Mae Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru (RASASC) yn cynnig cymorth a chwmsela arbenigol i unrhyw un dair oed a hynach sy'n byw yn unrhyw un o chwe awdurdod lleol gogledd Cymru y mae eu bywydau wedi eu heffeithio gan drais, cam-drin rhywiol neu unrhyw fath arall o drais rhywiol. Ei nod yw darparu gwasanaeth gwranddo, cwmsela, gwybodaeth a chymorth cyfrinachol a datblygu addysg y cyhoedd ar dreisio a cham-drin rhywiol a'u heffeithiau, boed y rheini'n effeithiau corfforol, meddygol, seicolegol neu gymdeithasol. Rhaid i'r holl gynghorwyr a therapyddion fod yn aelodau o Gymdeithas Cwmsela a Seicotherapi Prydain (BACP) neu gyfwerth.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru o dan Gam 2 y gwaith gan Fwrdd y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn cynnwys ystyried amrediad o fodolau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a fydd yn llywio datblygiad gwasanaeth sy'n cynyddu fesul cam. Ceir tystiolaeth megis mabwysiadu dull gweithredu Barnahus neu Child House yng nghynllun peilot cyntaf y DU, gwasanaeth [The Lighthouse](#) yn Llundain, a modelau arfer da sefydledig fel y rhai yng Nghanolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol [St Mary's](#) ym Manceinion.

Bydd hyn yn llywio manyleb gwasanaeth genedlaethol o wasanaethau Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer plant yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Chydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru i sefydlu grŵp rhanddeiliaid o gynrychiolwyr perthnasol er mwyn datblygu ac ymgynghori ar lwybr clinigol cenedlaethol i blant sydd wedi datgelu cam-drin plant yn rhywiol / plant sydd wedi'u nodi fel rhai sydd wedi profi cam-drin plant yn rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn comisiynu adolygiad tystiolaeth o ymyriadau a lywir gan drawma er mwyn llywio datblygiad pellach ymyriadau therapiwtig wedi'u cefnogi gan dystiolaeth a gwasanaethau ehangach a lywir gan drawma. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad gwasanaethau i blant sydd wedi profi trawma, gan gynnwys y rhai hynny sydd angen cymorth i adfer oherwydd cam-drin rhywiol.

Prosiect ymchwil ac ymarfer a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw 'Gwella', sy'n cael ei weithredu mewn partneriaeth â Barnado's Cymru a CASCADE, Prifysgol

Caerdydd. Nod prosiect Gwella yw lleihau risg plant sy'n agored i niwed o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant neu arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, drwy ddatblygu model atal i'w ddefnyddio ym maes gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant plant. Mae'r dull ymarfer wedi cael ei beilota mewn nifer o awdurdodau lleol gyda phlant rhwng pump ac 11 mlwydd oed lle y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'u bywydau am fod pryderon wedi codi neu dystiolaeth wedi dod i'r amlwg yn y gorffennol o drawma datblygiadol cynnar, fel cam-drin rhywiol, esgeulustod, cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol a phrofiad o weld trais domestig. Mae egwyddorion allweddol dull ymarfer Gwella fel a ganlyn:

- Deall effaith y trawma ar ddatblygiad y plentyn
- Sefydlu ymateb perthynol a therapiwtig o amgylch y plentyn sy'n seiliedig ar chwarae
- Mae gwella/cyfoethogi'r gydberthynas rhwng plentyn a'r prif ofalwr / prif ofalwyr yn un o'r prif nodau
- Mae gwella/cyfoethogi'r gydberthynas rhwng plentyn ac oedolion arwyddocaol eraill yn un o'r prif nodau
- Bydd plant yn derbyn ymateb wedi'i deilwra sy'n diwallu eu hanghenion a'u cryfderau unigryw

Mae'r dystiolaeth gynnar gan Gwella yn addawol, ac unwaith bydd y gwerthusiad wedi'i gwblhau, bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r dysgu o'r prosiect er mwyn llywio datblygiadau ymarfer.

Nid oes darlun clir o'r llwybrau atgyfeirio rhanbarthol na'r cymorth therapiwtig sydd ar gael i blant sy'n profi trawma ac sydd ag angen ymyrraeth o ganlyniad i gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol neu gam-drin plant yn rhywiol ar-lein. Bydd adolygiad rhanbarthol o'r ddarpariaeth yn cynorthwyo Byrddau Diogelu a'u partneriaid i ystyried a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth i gynorthwyo adferiad plant fel y gallant fwynhau canlyniadau llesiant gwell a chael eu diogelu'n well rhag cael eu cam-drin eto.

Amcan 10: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth i oedolion ac yn cael eu hatgyfeirio'n briodol i'r gwasanaethau hyn wrth iddynt gyrraedd 18 mlwydd oed.

Cam gweithredu	Perchennog	Cyfnod cyflawni
A32. Datblygu adnoddau addas i oedran i blant sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed ar gael cymorth fel oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth.	Llywodraeth Cymru	Cyfnod 2
A33. Hyrwyddo adnoddau i blant sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed ar gael cymorth fel oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth.	Partneriaid ar Fyrddau Diogelu	Cyfnod 3

Dangos bod camau gweithredu wedi cael eu gweithredu:	
	Adrodd
A32. Mae adnoddau addas i oedran i blant sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed ar gael cymorth fel oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth ar gael.	Diwedd Cyfnod 2
A33. Mae Byrddau Diogelu Plant yn adrodd tystiolaeth fod adnoddau i blant sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed ar gael cymorth fel oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth wedi cael eu hyrwyddo i ymarferwyr a'r cyhoedd.	Diwedd Cyfnod 3

Mae oedolion sydd wedi goroesi cam-drin plant yn rhywiol wedi dweud wrthym am yr anawsterau wrth gael gwybodaeth am le i fynd i gael cyngor a chymorth ar effaith y profiad ar eu llesiant. Nid yw rhai goroeswyr yn datgelu tan fyddant yn oedolion, ac mae eraill sy'n cael eu hadnabod fel dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol mewn plentyndod yn darganfod bod trawma'r profiad hwnnw o'u plentyndod yn effeithio arnynt yn ddiweddarach ar adegau arwyddocaol o'u bywydau neu'n barhaus.

Mae [Survivors Trust Cymru](#) yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â thrais a cham-drin rhywiol yng Nghymru, ac mae'n hybu'r angen am addysg, hyfforddiant i staff a gwasanaethau priodol i oroeswyr. Mae gwefan a llinell gymorth [Byw Heb Ofn](#) Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyngor i dioddefwyr trais rhywiol ac mae nifer o ymgyrchoedd cyhoeddus wedi amlygu'r adnodd hwn.

Pan fydd gwasanaethau'n gysylltiedig â phlentyn sy'n agosáu at 18 oed, mae'n bwysig meddwl am wneud atgyfeiriadau priodol i wasanaethau oedolion, ond ni fydd pob plentyn yn cael gwasanaethau oedolion yn ystod y cyfnod hwn. Bydd gwybodaeth am ffynonellau o wybodaeth am gyngor a chymorth a roddir i blant y gwyddys eu bod wedi eu cam-drin drwy gam-drin plant yn rhywiol yn eu helpu i wybod beth sydd ar gael fel oedolion os bydd angen cymorth arnynt. Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu adnodd priodol.

Y camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cynnydd ar weithredu'r camau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun hwn bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud a'i gynllunio'n gywir. Ar ôl diwedd Cyfnod 3, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adolygiad o'r cynnydd ar gyflenwi'r Cynllun ac yn cysylltu â'r Byrddau Diogelu a rhanddeiliaid eraill ynghylch unrhyw gamau nesaf.

¹ Lovett, J; Coy, M a Kelly, L. (2018) *Deflection, denial and disbelief: Social and political discourses about child sexual abuse: A rapid evidence assessment*, Prifysgol Fetropolitan Llundain, Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)
[Adroddiad Llawn](#) [Adroddiad Cryno](#)

² *Harmful sexual behaviour among children and young people* – NICE guideline [NG55] Dyddiad cyhoeddi: Medi 2016
<https://www.nice.org.uk/guidance/NG55/chapter/Recommendations#early-help-assessment>

³ <https://www.csacentre.org.uk/research-publications/key-messages/intra-familial-csa/#the-prevalence-of-intra-familial-csa>

https://www.csepoliceandprevention.org.uk/sites/default/files/cse_guidance_bame.pdf

<https://www.nr-foundation.org.uk/downloads/Report-on-Sexual-Exploitation-of-LGBT-Young-People-in-the-North-East-Jul-8714.pdf>

<http://www.barnardos.org.uk/its-not-on-the-radar-report.pdf>

<https://www.barnardos.org.uk/welsh-cse-ld-practice-guide.pdf>

⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) *Abuse during childhood: Findings from the Crime Survey for England and Wales, year ending March 2016*
<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/abuse-during-childhood/findings-from-the-year-ending-march-2016-crime-survey-for-england-and-wales#things-you-need-to-know>

5

https://www.csacentre.org.uk/index.cfm/_api/render/file/?method=inline&fileID=B4FE83C4-F51D-489B-91D389BDC1E950ED

⁶ http://nrl.northumbria.ac.uk/17211/2/BSCPoster_%281%29.pdf

⁷ Gwilym, C. a Thomas, M. (2018) *The experience of children and young people who display Harmful Sexual Behaviour and their families in Wales*, Adroddiad ar ymgynghoriad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, NSPCC Cymru a Barnardo's Cymru

⁸ <https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/2019/let-children-know-you-re-listening/>

⁹ Adroddwyd yn Kelly, L. a Karsna, K. (2018) *Measuring the scale and changing nature of child sexual abuse and child sexual exploitation: Scoping report*, Prifysgol Fetropolitan Llundain, Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol, Gorffennaf 2017, diweddarwyd Awst 2018

<https://www.csacentre.org.uk/csa-centre-prod/assets/File/CSA%20Scale%20and%20Nature%20full%20report%202018.pdf>

¹⁰ Mae Llwybrau Newydd yn gwmni elusennol cofrestredig sy'n darparu amrediad o wasanaethau cwnsela ac eirioli arbenigol ar gyfer menywod, dynion, plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan drais neu gam-drin rhywiol.

DRAFT